**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2001**

Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

*Cynigiodd y Trefnydd Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn yr eitem ganlynol ymlaen*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**
O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32
**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**Etholiadau i Bwyllgorau**
*NNDM844* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 14.3, yn ethol Peter Rogers (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle Jonathan Morgan (Ceidwadwr)

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 36
**Derbyniwyd y cynnig**

*NNDM843* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag Adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ethol David Davies (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Pwnc ar Ddatblygu Economaidd yn lle Glyn Davies (Ceidwadwyr)

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 37; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

*NNDM842* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag Adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ethol Glyn Davies (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Pwnc ar Ddiwylliant yn lle Jonathan Morgan (Ceidwadwyr)

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35
**Derbyniwyd y cynnig**

*NNDM841* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 13.2 yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Busnes yn lle William Graham (Ceidwadwyr)

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.03pm**
**Ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

*NDM837* - Cynnig:
1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/7 yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn sydd wedi'u nodi wrth bob mater yn yr Atodlen honno, a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:
John Griffiths AC
Karen Sinclair AC
David Davies AC
Geraint Davies AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 30 Tachwedd 2001, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyrau penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o'r fath, i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**
Cais gan Mr D J a Mrs M D Price, ac a alwyd i mewn gan y Cynulliad, ar gyfer codi annedd i weithiwr amaethyddol yn Nyfadfa Isaf, Gwynfe, Llangadog.
(Swyddogaeth y Cynulliad – adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)
Cais, a alwyd i mewn gan y Cynulliad, ac apêl adran 174 gan Miss S Williams a Mr O Isaac i adnewyddu hen ffermdy i'w droi'n annedd yn Thornhill, Llandyfân, Rhydaman
(Swyddogaethau'r Cynulliad – adran 77 ac 174 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)
Apêl cynllunio gan *Carillion Development* i ddatblygu 174 o unedau o fflatiau preswyl dwysedd uchel mewn tri bloc yn amrywio o 4-15 llawr (gan gynnwys parcio

tanddaearol) yn Schooner Way, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd
(Swyddogaeth y Cynulliad – adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.04pm**
**Cwestiynau Llafar i Brif Weinidog Cymru**
Atebwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

**2.48pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cytunwyd ar y Datganiad Busnes

**2.53pm**
**Pwyntiau o Drefn**

**Janet Ryder** Rheol Sefydlog 6.8 – Mewn perthynas â'r ffaith bod Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid wedi gwneud datganiad i'r wasg cyn iddi wneud datganiad gerbron y Cynulliad ar 15 Tachwedd.

**Gareth Jones** Rheol Sefydlog 6.31 – Ar ddehongli beth yw Cwestiwn Brys.

**Ieuan Wyn Jones** Rheol Sefydlog 5.3 – Ar sylw a wnaed gan Andrew Davies yn ystod ei ymateb i sylwadau am y Datganiad Busnes ddydd Mawrth diwethaf.

**Phil Williams** – Adran "Ddehongli" y Rheolau Sefydlog – Mewn perthynas â datganiad i'r wasg a oedd yn cyfeirio at "Lywodraeth Cynulliad Cymru" ac yn ceisio esboniad.

**3.04pm**
**Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo:**
*NDM838* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 22.25:

*Yn cymeradwyo:*
1. **Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001; ac Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

2. **Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2001; ac Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor

Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Hydref 2001 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Hydref 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig cyfansawdd:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.05pm**
**Dadl ar y Strategaeth Ddigartrefedd**

*NDM839* - Mae’r Cynulliad Cenedlaethol;

1. Yn croesawu adroddiad y Comisiwn Digartrefedd a’i gyngor ar achosion digartrefedd gan gynnwys ei bwyslais ar yr angen am wasanaethau sydd wedi’u hanelu at atal digartrefedd a chynnal pobl ddigartref.

2. Yn cydnabod pwysigrwydd strategaethau lleol cynhwysfawr ar ddigartrefedd ag iddynt elfen gref o gydweithio rhyng-asiantaethol i sicrhau atebion cynaliadwy i bobl ddigartref.

3. Yn gofyn i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ystyried yr ymatebion i’r argymhellion yn yr adrodddiad a monitro datblygiad strategaeth genedlaethol ar ddigartrefedd.

Gosodwyd fersiynau electronig Cymraeg a Saesneg o Adroddiad y Comisiwn Digartrefedd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2001.

Gosodwyd copïau papur o’r Atodiadau i’r Adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2001. Nid oes copi electronig ar gael.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ddiwedd pwynt 2 dileu "." a rhoi:

, ac yn cydnabod na ddylid datblygu strategaethau digartrefedd ar eu pennau eu hunain, ond y dylai strategaethau eraill, y mae eu hamcanion a'u pwyntiau gweithredu'n hwyluso'r strategaeth, eu galluogi.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo'n unol â hynny:

Yn cydnabod nad yw strategaeth ddigartrefedd yn ddiben ynddi'i hun ac na ddylai fod yn broses dechnegol, hyd braich. Dylai fod yn ddogfen ddeinamig a hyblyg sy'n cael ei diweddaru'n gyson er mwyn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau sy'n newid.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Yn y pwynt 3 presennol, dileu popeth ar ôl "yr adroddiad" a rhoi:

. Yna bydd y Pwyllgor yn goruchwylio ac yn monitro hynt y strategaeth hon a fydd yn cael ei datblygu ar y cyd â'r holl gyrff a'r mudiadau sy'n ymwneud â llunio Adroddiad y Comisiwn Digartrefedd.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

*Yn cydnabod pwysigrwydd arian cyfalaf a refeniw hir dymor i fudiadau gwirfoddol yn y sector tai, a'r ymrwymiad ariannol sylweddol sydd ei angen er mwyn cyflawni argymhellion yr adroddiad.*

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ymgynghori penodol ac eang â'r rheini yn y sector gwirfoddol a statudol sy'n gweithio i fynd i'r afael â digartrefedd.

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ymgynghori pellach ag Awdurdodau Lleol mewn ardaloedd y mae rhannau helaeth ohonynt yn wledig.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
Derbyniwyd Gwelliant 1

**Gwelliant 2**
O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 46
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 46
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 8; Ymatal 11; Yn erbyn 27; Cyfanswm 46
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 9; Ymatal 10; Yn erbyn 27; Cyfanswm 46
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.09pm**
**Y ddadl fer (a ohiriwyd o 19 Gorffennaf)**
***NDM770* Ann Jones (Dyffryn Clwyd); Tai Amlbreswyliaeth**

**4.34pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**
*NDM840* - Yn cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.5 a 16.1(v), yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 34
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.49pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 22 Tachwedd 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a gyflwynwyd ar 20 Tachwedd 2001

The Pesticides (Maximun Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2001 – LD1120

Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygio) (Rhif 3) 2001- LD1119

Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngiadau ar Ddefnyddio Shot Plwm) (Cymru) 2001 – Arfarniad Rheoliadol – LD1118

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002 – LD1117

Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2002 – LD1116

Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngiadau ar Ddefnyddio Shot Plwm) (Cymru) 2001 - LD1115

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001 – LD1114

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 – LD1113

Rheoliadau'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Terfynau Amser) (Cymru) 2001 – LD1111

Cod Ymarfer i Gymru ar Anghenion Addysgol Arbennig – LD1110